"Yr wyf yn dy foliannu di, O Dad, Arglwydd nef a daear, am i ti guddio'r pethau hyn rhag y doethion a'r deallusion, a'u datguddio i rai bychain;"
(Luc 10:21)

Dyma weddi gyhoeddus o fawl a gorfoledd gan yr Arglwydd Iesu, ar ôl iddo glywed tystiolaeth y saith deg dau disgybl oedd newydd ddod nôl o'u cenhadaeth.

Cuddio a datguddio

Wrth gyfarch y Tad nefol, mae Iesu'n ei alw yn 'Arglwydd nef a daear'. Mae hyn yn ein hatgoffa o sofraniaeth Duw. Ef sydd yn dewis datguddio neu guddio gwirioneddau'r Efengyl i bobl.

Mae'r Arglwydd Iesu'n dweud rhywbeth tebyg mewn man arall wrth sôn am ei ddamhegion: **"I chwi y mae cyfrinach teyrnas Dduw wedi ei rhoi; ond i'r rheini sydd oddi allan y mae popeth ar ddamhegion"** (Marc 4.11). Ryn ni'n dal i sôn am rywun yn 'siarad mewn damhegion' pan na fyddwn yn deall beth mae person yn ceisio'i ddweud wrthym.

Mae'r apostol Paul hefyd yn dweud fod **"duw y byd hwn"** yn gyfrifol am ddallu anghredinwyr i wirionedd yr Efengyl. Satan ydy hwnnw, wrth gwrs.

Felly, oni bai bod Duw yn agor llygaid person trwy waith yr Ysbryd Glân yn ei galon, ni all hwnnw ddirnad teyrnas Dduw, ac ni all gredu yng Nghrist fel ei Waredwr a'i Arglwydd.

Rhai bychain

Yna mae Iesu'n llawenhau a gorfoleddu mai 'rhai bach' ac nid y gwybodusion sydd wedi gweld buddugoliaeth ar Satan yn eu cenhadaeth. Mae'r geiriau hyn yn debyg iawn i eiriau Paul yn 1 Cor. 1.26-27: **"Ystyriwch sut rai ydych chwi a alwyd, gyfeillion: nid oes rhyw lawer ohonoch yn ddoeth yn ôl safon y byd, nid oes rhyw lawer yn meddu o awdurdod, nid oes rhyw lawer o dras uchel. Ond pethau ffôl y byd a ddewisodd Duw er mwyn cywilyddio'r doeth."**

Wrth feddwl am y deuddeg, mae hyn yn wir. Roedd y mwyafrif o'r apostolion yn ddynion cyffredin. Roedd Paul ei hun yn ddysgedig, ond mae'n berffaith amlwg mai nid ei ddysg a'i troes yn apostol, ond datguddiad Crist iddo ar y ffordd i Ddamascus. Yn wir, o'u cymharu ag adnabod Crist, roedd ei rinweddau yn y cnawd yn sbwriel yn ei olwg.

Nid pôs anodd i'w ddatrys mo'r Efengyl, felly; nid mynydd i'w ddringo;

yn hytrach mae'n wirionedd i'w geisio a'i dderbyn yn null plentyn, trwy ffydd.

Gweld

Beth oedd y rhai bychain wedi ei weld? Beth oedd y **"pethau hyn"?** Roedden nhw wedi bod yn cenhadu yn enw Crist; yn cyhoeddi teyrnas Dduw yng Nghrist; ac yn cyflawni rhyfeddodau megis iacháu a bwrw allan gythreuliaid. Maen nhw wedi gweld buddugoliaeth teyrnas Crist, rhagflas o'r fuddugoliaeth fawr fydd yn cael ei sylweddoli yn ei ailddyfodiad.

Proffwydi a brenhinoedd

Roedd proffwydi'r Hen Destament wedi gweld y pethau hyn o bell. Mae Ioan yn dweud bod Eseia wedi gweld gogoniant Iesu (12.41). Ef oedd yn proffwydo am y bachgen fel "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn, Tad bythol, Tywysog heddychlon" (9.6). Ef oedd yn sôn am y Gwas Dioddefus (52-53).

Roedd Malachi wedi sôn am haul cyfiawnder yn codi gyda meddyginiaeth yn ei esgyll. Iesu Grist oedd yr haul, a dim ond gweld cysgod pell ohono wnaeth y proffwyd yn y llyfr olaf o'r Hen Destament.

Roedd Dafydd Frenin wedi sôn am y Meseia yn Salm 110.1. Cafodd addewid o frenhiniaeth dragwyddol yn ei ddisgynyddion, ac oherwydd hynny gelwid y Meseia yn Fab Dafydd: **"Sicrheir dy deulu a'th deyrnas am byth o'm blaen; erys dy orsedd yn gadarn hyd byth"** (2 Sam.7.16).

Serch hynny, welodd yr un o'r proffwydi na'r brenhinoedd duwiol Iesu Grist na theyrnas Dduw yn dod mewn cnawd fel y gwelodd y saith deg dau.

Gorfoledd yn yr Ysbryd Glân

Mae'n hyfryd darllen am Iesu Grist yn gorfoleddu. Yr oedd wedi ei eneinio â'r Ysbryd Glân y tu hwnt i fesur, a thu hwnt i bawb arall, ac wrth weld llawenydd y saith deg dau ar ôl iddynt fod yn dystion i rym enw Crist, a'r rheini yn bobl ddigon cyffredin ar y cyfan, mae'n cael ei lenwi â gorfoledd.

Mae'n orfoledd iddo feddwl fod pethau mawr tragwyddol, ysbrydol, yn cael eu datguddio i rai bychain di-nod. Fydden nhw ddim yn cyflawni campau enfawr yn eu bywyd nac yn llwyddo i gyrraedd uchelfannau'r byd, ac eto roedden nhw wedi cael cipolwg ar ogoniant teyrnas Dduw.

Mae Crist yn gorfoleddu hefyd wrth feddwl fod yr hyn welodd y proffwydi a'r brenhinoedd o bell wedi dod yn wir. Daeth yr addewidion hirddisgwyliedig yn ffaith.

Yr hyn sydd yn peri llawenydd i'r Gwaredwr yw rhyfeddod gras Duw a'i ffyddlondeb. Wrth reswm, dyna ddylai roi y llawenydd mwyaf i ni hefyd.